# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | David Hopkins | Adran Etholiadol: | Townhill |

| | |
|---|---|
| **Portffolio'r Cabinet/y Weithrediaeth:** | Aelod y Cabinet dros Gymunedau a Thai (o 17 Medi 2014) |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Cynhaliais gymorthfeydd misol ym Mayhill a'r Gors.

Roeddwn yn aelod Corff Llywodraethu Plasmarl (ac rwy'n dal yn aelod ar adeg ysgrifennu hyn).

Cynhaliais gyfarfodydd rheolaidd â Rheolwr Tai Swyddfa Dai Townhill.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir y % presenoldeb sy'n seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 2 | / | 8 | 25 | % |
| Y Cabinet | 9 | / | 11 | 82 | % |
| Y Cyngor | 15 | / | 17 | 88 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 2 | / | 8 | 25 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 1 | / | 3 | 33 | % |
| YN GYFFREDINOL | 29 | / | 47 | 62 | % |
| | | | | | |
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Ymchwilio Craffu Gwella Gwasanaethau i Blant sy'n | 0 | / | 1 | 0 | % |
| YN GYFFREDINOL | 0 | / | 1 | 0 | % |

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Roeddwn yn cwrdd yn rheolaidd â'r heddlu i drafod materion y ward.

Roeddwn yn cadeirio cyfarfodydd cyhoeddus yn ôl yr angen.

Cwrddais â thri Phwyllgor Rheoli'r Ganolfan Gymunedol a hefyd Ganolfan y Ffenics.

## Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwyf wedi bod yn weithgar yn y broses o adleoli Cymhorthfa Mayhill a Chanolfan Deuluoedd Mayhill yn hen Barc Mayhill.  Bydd y ganolfan newydd yn disodli'r gymhorthfa newydd ar Heol Pen-y-Graig a'r Ganolfan Deuluoedd ar Heol Mayhill.

Roeddwn hefyd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau ffordd ar draws y bryn a chamau arafu traffig.

**Rhaglen Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) -** i wella'r stoc erbyn 2020. Roedd y gwariant cyfalaf yn 2014/15 yn £24.5m i helpu i fodloni SATC. Bydd y rhaglen gyfalaf eleni fymryn o dan £52m gyda chyfanswm o £290m wedi'i neilltuo i'w wario rhwng eleni a 2020.

**Ymchwil Barhaus -** Cynhaliwyd ymchwil i fodelau ariannu a manylebau newydd ar gyfer mwy o dai cyngor ac mae'r gwaith hwn yn parhau. Yn ddiweddar ymwelais â Chyngor Camden a Chartrefi Rhondda Cynon Taf (RhCT) er mwyn edrych ar ffyrdd blaengar o gyflwyno tai cyngor newydd.

**Mwy o Gartrefi -** Yn 2014/15 dechreuodd gwaith ar ddatblygu strategaeth ffurfiol ar gyfer defnyddio adnoddau Cyfrif Refeniw Tai (CRT) i gefnogi darparu mwy o dai fforddiadwy. Bydd y strategaeth yn cynnwys asesiad o'r math o lety i'w adeiladu, lle y dylid ei ddarparu, y maint tebygol o arian fydd ar gael o flwyddyn i flwyddyn a'r dewisiadau ar gyfer sicrhau y caiff y math cywir o lety ei ddarparu yn y lleoliadau lle mae eu hangen. Mae gwaith presennol yn canolbwyntio ar asesu addasrwydd safleoedd CRT i'w datblygu yn y rhaglen gyffredinol.

**Strategaeth Tai Lleol Ddrafft -** Datblygwyd Strategaeth Tai Lleol ddrafft. Mae Pwyllgor Cynghori'r Cabinet yn ystyried hyn yn fanwl ar hyn o bryd gyda'r bwriad o'i chyflwyno i'w chymeradwyo'n ffurfiol gan y cyngor erbyn diwedd y flwyddyn.

## Adran 5: Dysgu a Datblygu

Rwyf wedi mynd i sesiynau hyfforddi pan fo modd.  Fodd bynnag, mae gen i wybodaeth a phrofiad helaeth wedi'u hennill dros flynyddoedd lawer o fod yn gynghorydd.

Es i hyfforddiant Amddiffyn Plant yn fy rôl fel llywodraethwr ysgol.

## Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill

Dros y llawer o flynyddoedd rwyf wedi bod yn gynghorydd dros Townhill, rwyf bob amser wedi bod wrth law i'r bobl yn f'etholaeth ac wedi ystyried eu problemau a cheisio eu datrys. Ar adeg ysgrifennu hyn, fy mwriad yw parhau i fod ar gael i bobl Mayhill, Townhill a'r Gors.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300 (hyd at 16 Medi 2014)
Cyflog Uwch: £32,000 Aelod y Cabinet dros Gymunedau a Thai (o 17 Medi 2014)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 01.06.15 |